



ADSS Cymru

Leading Social Services in Wales

Yn arwain Gwasanaethau

Cymdeithasol yng Nghymru

THE **WELSH NHS CONFEDERATION**
CONFFEDERASIWN **GIG CYMRU**

Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Dathlu Llesiant

Detholiad o enghreifftiau o astudiaethau achos



“Mae fy ngofal yn cael ei gynllunio gennyf i gyda phobl yn cydweithio i'm deall i, fy rheulu a'm gofalwr (gofalwyr) gan roi rheolaeth i mi, a dod â gwasanaethau ynghyd i gyflawni'r canlyniadau sydd yn bwysig i mi.”

Diffiniad o Gôd Ymarfer pobl sydd angen gofal a chymorth

Cyflwyniad

Datblygwyd y cyhoeddiad hwn gan ADSS Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru ar gyfer gwaith sydd yn integreiddio tystiolaeth a'i fuddion ar gyfer llesiant unigolion. Mae'n rhoi enghreifftiau o gydweithio cadarnhaol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Mae'n canolbwyntio ar lesiant ac mae'n cyflwyno ystod o fuddion sydd wedi digwydd ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014).

Confederasiwn GIG Cymru yw'r sefydliad aelodaeth genedlaethol sydd yn cynrychioli holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru: y saith Bwrdd Iechyd lleol a'r tair Ymddiriedolaeth. Mae'n gweithio i gefnogi aelodau trwy weithredu fel grym ar gyfer newid cadarnhaol trwy gynrychiolaeth gref a gwaith polisi, dylanwadu, cyfathrebu ac ymgysylltu.

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) yw'r sefydliad arweinyddiaeth broffesiynol a strategol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac mae'n cynnwys Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol statudol, a Phenaethiaid Gwasanaeth sy'n eu cefnogi i gyflawni cyfrifoldebau ac atebolrwydd gwasanaethau cymdeithasol; grŵp o 80 o arweinwyr y gwasanaethau cymdeithasol ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Cyflwynir amrywiaeth o astudiaethau achos dienw sydd yn cynnwys meysydd gwasanaeth a grwpiau cleientiaid gwahanol, sydd yn rhoi amrywiaeth rhanbarthol ar draws Cymru. Tra'n edrych yn bennaf ar safbwynt y person, maent hefyd yn dangos sut gwnaeth gofalwr y teulu, nyrs neu weithiwr iechyd proffesiynol, gweithiwr gofal cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol neu weithiwr Trydydd Sector proffesiynol gyfrannu at y canlyniad dymunol. Ym mhob achos, amlygir prif themâu perthnasol Deddf 2014.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol newydd yn cynnwys y Côt Ymarfer, yn cyflwyno gofynion a chyfleoedd

newydd i'r iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol weithio'n agosach hyd yn oed.

Yr egwyddorion sy'n ategu'r trawsnewid hwn yw:

- > hybu llesiant;
- > dinasyddion a gweithwyr proffesiynol yn rhannu pŵer ac yn cydweithio fel partneriaid cyfartal;
- > sicrhau llais a rheolaeth ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth;
- > gwaith a chydweithredu aml-asiantaeth;
- > ataliaeth ac ymyrraeth gynnar.

Mae'r Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol Statudol newydd yn darparu'r cyfeiriad strategol i ddwyn newid ymlaen a chyflwyno cymorth mwy integredig wedi ei dargedu ar gyfer dinasyddion. Fodd bynnag, yn y rheng flaen y gall gwaith partneriaeth greu'r buddion, y diben a'r canlyniadau mwyaf diriaethol ar gyfer yr unigolyn.

Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos y gall rhoi ffocws clir i lesiant a chanlyniadau personol a gweithio gydag ymagwedd integredig roi buddion sylweddol i unigolion a'u teuluoedd, yn ogystal â phobl sydd yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac ar gyfer defnyddio adnoddau yn effeithiol. Mae'r astudiaethau achos yn pwysleisio gwerth gweithlu ymrwymedig wedi ei hyfforddi, na fyddent, hebddynt, yn gallu cyflwyno'r gofal a'r cymorth y mae pobl ei angen. Mae gwaith cydweithredol cadarnhaol a rheoli asesu a gofal yn dda ar gyfer pobl yn amlwg yn yr astudiaethau achos hyn yn ogystal â dangos y gellir cyflawni mwy gyda'n gilydd na thrwy weithio o safbwynt mewnblyg neu drafodaethol.

Gobeithio caiff yr astudiaethau achos hyn eu defnyddio ar draws Cymru i wella dealltwriaeth o'r heriau o ddarparu gwasanaethau da ac i lywio'r gwaith o ddatblygu a gwella ymarfer ac i ysgogi trafodaeth ynghylch sut y gellir cyflawni partneriaethau gwell a gwasanaethau integredig ar lefel leol a rhanbarthol.

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

✓ llesiant a chanlyniadau personol

- > cyd-gynhyrchu
- > modelau gofal newydd
- > llais a rheolaeth i bobl
- > ataliaeth ac ymyrraeth gynnar

> gwybodaeth, cyngor a chymorth

> asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur

✓ integreiddio, partneriaeth a chydweithredu

✓ diogelu ac amddiffyn

✓ eiriolaeth

1

Grŵp Cleientiaid

Person hŷn yn aros i gael ei ryddhau o'r ysbyty.

Amgylchiadau personol

Mae hen fenyw 93 oed wedi cael ei derbyn i'r ysbyty gyda briwiau pwysedd. Roedd wedi bod yn byw mewn cartref gofal dros dro, oedd wedi dweud na fyddai lle ar gael ar ei chyfer pan fyddai'n cael ei rhyddhau. Roedd ganddi fab oedd yn rhan weithredol o'u gofal dyddiol. Roedd y mab yn awyddus iddi gael ei rhyddhau i gartref gofal ac roedd y fenyw, oedd wedi cael ei hasesu i fod â gallu, yn newid rhwng dweud ei bod eisiau mynd i gartref gofal ac eisiau dychwelyd i'w fflat.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Atgyfeiriwyd y fenyw gan dîm rhyddhau'r ysbyty, a wnaeth gais bod eiriolwr yn mynychu'r cyfarfod cynllunio rhyddhau am fod gwahaniaethau o ran eu dymuniadau hi a dymuniadau ei mab. Y gobaith oedd, trwy gael eiriolwr yn bresennol, y byddai'r fenyw yn teimlo'n hyderus i fynegi ei dewis, oedd yn ymddangos yn wahanol pan ofynnwyd iddi ar ei phen ei hun a phan oedd ei mab yn bresennol.

Roedd y mab yn gwrthwynebu i fewnbwn eiriolwr a gofynnodd pa gymorth gallai eiriolwr ei roi. Cytunwyd y byddai'r goruchwyliwr yn dod gyda'r eiriolwr ar gyfer yr ymweliad cyntaf yn yr ysbyty, gan fod y mab wedi dangos gwrthwynebiad i ymyrraeth eiriolwr, ond mynegodd y fenyw ei hun ddymuniad i weld eiriolwr.

Cysylltodd y mab â'r eiriolwr yn gofyn iddi fod yn bresennol mewn cyfarfod yr oedd yn ei drefnu i'w fam lofnodi ffurflen yn ildio tenantiaeth ei fflat. Dywedodd yr eiriolwr nad oedd yn gallu gwneud hyn ac nad dyna oedd rôl eiriolwyr. Nid oedd yn glir chwaith a oedd y fenyw yn dymuno dychwelyd adref gyda phecyn gofal neu i gael lle mewn cartref nyrsio. Teimlwyd y gallai hyn fod wedi bod yn ymgais i orfodi ac amddifadu asedau gan y mab, am ei fod wedi datgan ei fod yn dymuno i'w fam gael ei rhyddhau i gartref nyrsio, lle byddai ganddo gyfrifoldebau gofalu o hyd. Roedd y fenyw mewn iechyd gwael ac yn eiddil iawn felly mae'n debygol y byddai'n rhaid gwneud penderfyniad lles, er gwaetha'r ffaith fod asesiad eisoes wedi cael ei wneud yn datgan bod ganddi'r gallu. Roedd y mab yn mynnu nad oedd ganddi'r gallu.

Canlyniad

Cysylltodd yr eiriolwr â Chydlynnydd Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) y Bwrdd Iechyd. Yn dilyn mewnbwn gan yr eiriolwr yn cynnwys cyngor ar opsiynau ar gyfer y fenyw, cytunwyd bod asesiad pellach o allu'n cael ei gynnal ac yn y cyfarfod cynllunio rhyddhau, y gellid gwneud penderfyniad er budd iddi hi.

Pwynt Cyswllt

Age Connects Wales

Jeff.Hawkins@ageconnectscardiff.org.uk

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

- ✓ **llesiant a chanlyniadau personol**
 - > **cyd-gynhyrchu**
 - > **modelau gofal newydd**
 - > llais a rheolaeth i bobl
 - ✓ **ataliaeth ac ymyrraeth gynnar**
- > gwybodaeth, cyngor a chymorth
 - ✓ **asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur**
 - ✓ **integreiddio, partneriaeth a chydweithredu**
 - ✓ **diogelu ac amddiffyn**
 - > eiriolaeth

Grŵp Cleientiaid

Plentyn mewn perygl.

Amgylchiadau personol

Nid oedd Lucy yn dychwelyd adref at ei rhieni ar yr amser y cytunwyd ac ystyriwyd ei bod mewn perygl o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blentyn oherwydd cyfeillgarwch amhriodol, ei hoed a'r ffaith ei bod yn agored i niwed. Nid oedd ei rhieni'n gallu rheoli ymddygiad ymosodol Lucy gartref oedd hefyd yn ei rhoi mewn perygl o niweidio'i hun. Cafodd Lucy ei gwahardd yn barhaol o'r ysgol ac roedd yn teimlo'n ynysig.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Cafodd cynllun diogelwch ei atgyfnerthu gan weithiwr cymorth i deuluoedd ym mhob apwyntiad. Roedd y gweithiwr cymorth wedi mynd i'r afael ag emosïynau, meddyliau a theimladau o ddieter ac ymosodedd gyda Lucy. Cafodd ysgogwyr a strategaethau, gwaith ABS, ysgogiad a dymuniadau ar gyfer y dyfodol i gyd eu harchwilio. Cwblhaodd CAMHS Asesiad Iechyd Meddwl llawn mewn perthynas â'i chamdddefnydd o sylweddau. Cytunodd Lucy i gymryd rhan mewn rhaglen lleihau niwed, cyngor ac addysg cyffuriau. Cynghorwyd Lucy i gadw dyddiadur meddyliau yn ymwneud â'i hwyliau a'i dieter gafodd ei adolygu gan ddefnyddio technegau CBT. Cwblhawyd holiadur Cylch Hwyliau i nodi patrymau ymddygiad a datblygu dealltwriaeth o'r ymddygiad ac adlewyrchu er mwyn gwneud newidiadau. Cynigiodd y gweithiwr cymorth sesiwn hylendid cwsg a rhoi cyngor i Lucy ar gynnwys strwythur yn ei threfn ddyddiol. Gofynnwyd am asesiadau iechyd meddwl fel mater o drefn gan gydweithiwr meddygol. Cafodd Lucy sesiynau unwaith yr wythnos trwy wasanaeth Mentor leuenctid er mwyn archwilio gweithgareddau a chynnal diogelwch yn y gymuned.

Canlyniad

Yn dilyn trafodaeth gyda'r Swyddog Lles Addysg, dechreuwyd tiwtora dri diwrnod yr wythnos mewn Hyb lleol. Bydd Lucy yn dechrau mewn Uned Cyfeirio Disgyblion mewn ychydig fisoedd. Mae Lucy wedi newid ei grŵp ffrindiau ar ôl sylweddoli bod y rheiny yr oedd yn ymwneud â nhw yn flaenorol yn cael dylanwad negyddol. Dywedodd Lucy ei bod wedi ailgynnu hen gyfeillgarwch gyda rhai y mae ei mam yn eu cymeradwyo ac mae bellach yn teimlo ei bod yn cael cefnogaeth am eu bod yn ei chadw hi allan o drwbl. Mae Lucy yn ymwybodol o'i chyrrffyw a'r hyn a ddisgwylir ohoni. Mae hyn wedi cael ei ddatblygu rhwng Lucy a'i rhieni. Nodwyd cadetiaid y fyddin er mwyn hybu defnydd cadarnhaol Lucy o amser hamdden ac mae'r gweithiwr cymorth wedi helpu Lucy i gwblhau ffurflen ymrestru ar-lein.

Mae'r rhieni wedi cytuno i gael Cymorth i Deuluoedd. Y prif nod oedd cynorthwyo'r ddau riant i reoli ymddygiad Lucy yn briodol a rhoi strategaethau rhianta i leddfu'r tensiwn yn y cartref. Mae'r Gwasanaeth Ymyrraeth a Chymorth (FISS) yn cefnogi'r teulu ar benwythnosau ac wedi cynnig cymorth ychwanegol i fam Lucy yn ystod yr wythnos. Gwnaed gwaith ar wobrwyo, canmol, canlyniadau a gosod ffiniau. Sefydlwyd gwaith uniongyrchol gyda thad Lucy hefyd am fod eu perthynas o dan straen. Gwnaed atgyfeiriad Trais y Glasoed tuag at Ofalwr (APV) Teuluoedd Ynghyd mewn perthynas ag ymosodedd tuag at rieni. Mae ymyrraeth gosod nodau yn cael ei gwblhau er mwyn ceisio gwella'r sefyllfa bresennol.

Pwynt Cyswllt

Cyngor Dinas Caerdydd

Carys.Davies@cardiff.gov.uk

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

✓ llesiant a chanlyniadau personol

- > cyd-gynhyrchu
- > modelau gofal newydd

✓ llais a rheolaeth i bobl

✓ ataliaeth ac ymyrraeth gynnar

> gwybodaeth, cyngor a chymorth

> asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur

✓ integreiddio, partneriaeth a chydweithredu

✓ diogelu ac amddiffyn

> eiriolaeth

Grŵp Cleientiaid

Plentyn cyn-ysgol sydd angen cymorth a datblygiad.

Amgylchiadau personol

Dechreuodd plentyn A mewn gofal plant yn 2 oed gyda sgiliau iaith a chyfathrebu gwael iawn ac oedi o ran datblygiad corfforol. Nid yw'r plentyn wedi cael llawer o anogaeth gartref ac wedi treulio cyfnodau hir yn gaeth i gadair wthio neu gadair uchel. Roedd yn ansicr iawn ar ei draed ac yn cael anhawster yn sefyll. Roedd yn cyfathrebu'n bennaf trwy grintach a mwmlal ac roedd ei eirfa yn gyfyngedig i'r gair 'na'.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Caniataodd y cyswllt rhwng asiantaethau cyn i blentyn A ddechrau grŵp chwarae waith pontio hanfodol o'r cartref i'r lleoliad cyn-ysgol a sicrhodd bod y plentyn yn cael gweithiwr allweddol a gweithiwr cymorth 1:1 o'r dechrau. Cefnogodd y gweithiwr cymorth 1:1 anghenion symudedd y plentyn ac annog ei iaith a'i gyfathrebu. Datblygodd yr aelod o'r staff berthynas ragorol gyda'r plentyn a sicrhodd ei fod yn gallu cymryd rhan ym mhob gweithgaredd gyda'r cymorth angenrheidiol. Datblygwyd gweithgareddau oedd yn briodol i gyfnod datblygiad y plentyn, gyda chymorth athro cynghori Dechrau'n Deg a chydag adnoddau arbenigol o'r llyfrgell fenthyg na fyddai'r grŵp chwarae wedi gallu eu fforddio fel arall.

Canlyniad

Ar ôl sawl mis mewn gofal plant, cafodd y plentyn hwn fynediad i chwe wythnos o sesiynau Ysgol y Goedwig. Yn un o'r sesiynau hyn y dechreuodd y plentyn gerdded yn fwy hyderus, ar arwynebedd glaswelltog anwastad. Roedd yn mwynhau plygu i lawr ac ymestyn i gasglu pren ac o fewn ychydig wythnosau yn Ysgol y Goedwig roedd yn ceisio dringo camfa bren gyda chymorth. Dywedodd ei ymadrodd byr cyntaf yn Ysgol y Goedwig hefyd. Cafodd staff y grŵp chwarae eu syfrdanu gan y cynnydd a wnaeth mewn cyfnod mor fyr. Cafodd gyfleoedd oedd yn ei alluogi i wneud cynnydd datblygiadol na fyddai wedi eu cael fel arall.

Sicrhodd gwaith cydweithredol rhwng y staff cyn-ysgol, athro cynghori Dechrau'n Deg, Cynllun Cymorth Cyn-ysgol Conwy a Chanolfan Datblygu Plant Conwy bod y gwasanaethau gorau'n cael eu darparu ar gyfer plentyn A. Heb yr hawl i ofal plant Dechrau'n Deg, mae'n annhebygol y byddai'r plentyn hwn wedi cael mynediad i unrhyw ddarpariaeth gofal plant. Cysylltodd yr athro cynghori â'r ymwelydd iechyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf, am eu bod yn cefnogi iechyd a lles meddwl y fam, yn ogystal â darparu ar gyfer anghenion iechyd y plentyn.

Pwynt Cyswllt

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Flying.Start@conwy.gov.uk

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

- ✓ **llesiant a chanlyniadau personol** > gwybodaeth, cyngor a chymorth
- ✓ **cyd-gynhyrchu** > asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur
- ✓ **modelau gofal newydd** ✓ **integreiddio, partneriaeth a chydweithredu**
- ✓ **llais a rheolaeth i bobl** > diogelu ac amddiffyn
- > ataliaeth ac ymyrraeth gynnar > eiriolaeth

Grŵp Cleientiaid

Pobl anabl yn defnyddio taliadau uniongyrchol.

Amgylchiadau personol

Roedd Mr D yn cael anhawster gyda'r ffordd yr oedd yr asiantaeth gofal eisiau cyfyngu ei ddewisiadau trwy arferion gofal cyfyngol, fel peidio datblygu'r pecyn cymorth o'i amgylch. Gofynnwyd am gyfarfod i drafod ffyrdd ymlaen. Roedd Mr B, sef partner Mr D, yn gofalu am rywun arall gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol a gofynnwyd i Mr B gynyddu ei oriau am fod y cleient yn ymateb yn dda oherwydd dealltwriaeth Mr B o Awstriaeth. Felly, cysylltodd Mr B â gweithiwr cymdeithasol Mr D i'w gynghori bod angen cynyddu ei becyn cymorth ond ei fod yn ansicr a ellid cyflawni hyn oherwydd materion gallu'r asiantaeth. Ar ôl cryn drafod, cytunodd yr asiantaeth i gynyddu'r oriau yn unol â dymuniadau'r awdurdod lleol. Roedd Mr D yn falch bod hyn yn gallu digwydd am y byddai'n galluogi ei bartner i fynd i helpu rhywun arall oedd â hawl i daliadau uniongyrchol.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Ar y noson cyn yr oedd Mr B i fod dechrau'r oriau cynyddol ar gyfer ei gleient, hysbysodd yr asiantaeth ef nad oeddent yn gallu cefnogi'r pecyn cynyddol a dywedodd teulu ei gleient nad oeddent yn gallu aros i gymorth Mr D gael ei drefnu. Cynhaliwyd cynhadledd achos frys i geisio datblygu cynllun ymarferol; roedd Mr D yn gwybod y gallai dod o hyd i asiantaeth yn yr ardal wledig lle'r oedd yn byw fod yn her ond roedd yn ymwybodol bod deddfwriaeth newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi pwyslais ar yr awdurdod lleol i edrych am fodelau gwasanaeth newydd ac arloesol. Daethpwyd i'r casgliad y gallai taliadau uniongyrchol fod yn ateb ond roedd ansicrwydd a fyddai hyn yn gweithio am fod costau Mr D'n cael eu talu trwy gytundeb ar y cyd rhwng iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Ar ôl trafodaeth bellach oedd yn cynnwys y Cyngor, y Bwrdd Iechyd Lleol a'r asiantaeth taliadau

uniongyrchol, cadarnhaodd Mr D y byddai ei ŵr Mr B, gofalwr profiadol, yn hapus i weithio iddo fel Cynorthwydd Personol. Roedd yn anarferol i'r awdurdod lleol ganiatáu i bartneriaid gael dyletswyddau cymorth yn unol â deddfwriaeth taliadau uniongyrchol ond mewn amgylchiadau eithriadol, roedd Mr D yn gwybod y gellid archwilio hynny.

Canlyniad

Roedd Mr D a Mr B yn gallu dangos y byddai taliadau uniongyrchol yn cyflawni'r canlyniadau yn unol â'r cynllun gofal a chymorth felly rhoddwyd tîm amlddisgyblaethol ar waith. Aeth hyn ymlaen am wythnosau am nad oedd y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod eu sefyllfa gyfreithiol a bwriad canllawiau yn y dyfodol yn yr amgylchiadau hyn. Trwy gydol y broses hon, gadawyd Mr D a Mr B ar goll heb unrhyw gymorth gyda thasgau byw bob dydd gan roi cryn bwysau arnynt. Roedd hyn yn rhwystredigaeth i Mr D a gysylltodd â'i Gynghorydd lleol i ofyn i uwch gyfarwyddwyr yn yr awdurdod lleol i ddod o hyd i ateb. Gwnaeth yr uwch gyfarwyddwr gais am weithredu uniongyrchol er mwyn i Mr D a Mr B allu parhau â'u bywydau gyda'r cymorth angenrheidiol. Mae'r cytundeb a roddwyd i daliadau uniongyrchol yn enghraifft dda o'r gwasanaethau cymdeithasol a'r deddfwriaeth llesiant yn gweithredu fel ysgogwr ar gyfer ffyrdd newydd o weithio ac arweiniodd at ddeialog pellach gyda'r bwrdd iechyd lleol er mwyn gweithio trwy fodel gweithredu ar gyfer y maes gwasanaeth hwn.

Pwynt Cyswllt

Enabledd Cymru

damian.bridgeman@bridgemanhealthcare.co.uk

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

✓ llesiant a chanlyniadau personol

- > cyd-gynhyrchu
- > modelau gofal newydd
- > llais a rheolaeth i bobl

✓ ataliaeth ac ymyrraeth gynnar

✓ gwybodaeth, cyngor a chymorth

- > asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur
- ✓ **integreiddio, partneriaeth a chydweithredu**
- > diogelu ac amddiffyn
- > eiriolaeth

Grŵp Cleientiaid

Oedolyn ifanc ag anghenion gofal a chymorth ar ôl ei ryddhau o'r ysbyty.

Amgylchiadau personol

Roedd BR yn ddyn 24 oed a ryddhawyd o ward lawfeddygol aciwt yn dilyn echdoriad y coluddyn a ffurfio colostomi. Roedd yn byw gyda'i bartner a mab naw mis oed mewn fflat cymdeithas dai ar rent. Cychwynnwyd atgyfeiriad rhyddhau fel mater o drefn ar gyfer y tîm nyrsio ardal lleol ar gyfer ymweliadau gofal clwyf ar ôl llawdriniaeth a chyngor ynglŷn â rheoli stoma.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Defnyddiwyd model hierarchaeth o atebion yn y tîm fel bod BR yn gallu canolbwyntio ar ei gryfderau a'i alluoedd, gan gydweithredu â theulu a ffrindiau a chymunedau er mwyn cyflawni 'Yr Hyn Sy'n Bwysig'. Y llawdriniaeth a ffurfio colostomi a gafodd BR, yn ei farn ef, fyddai'r penderfyniad/dewis gorau, am y byddai hyn yn gwella ansawdd ei fywyd ac yn sicrhau pob agwedd ar lesiant. Yr hyn oedd yn bwysig i BR oedd lles ei deulu a'r gallu i ddarparu'n ariannol ar eu cyfer. Roedd ar absenoldeb salwch ar y pryd ac yn derbyn budd-daliadau ac roedd hyn yn achosi pryder sylweddol iddo oedd yn drech nag unrhyw ganlyniadau corfforol. Roedd yn poeni sut roedd yn mynd i fwydo ei deulu a thalu unrhyw filiau oedd yn ddyledus. Trw roi ei deulu yn gyntaf, roedd yn niweidio ei adferiad, "Byddai'n well gen i fod heb na bod fy mab yn gorfod bod heb fwyd a chewynnau". Mae'r gost gudd sydd yn gysylltiedig â'r achos hwn yn anhysbys h.y. o ran sut y byddai hyn wedi effeithio ar ei adferiad, gwellhad y clwyf a'i lesiant cyffredinol ar ôl y llawdriniaeth.

Canlyniad

Yn yr achos penodol hwn, yn ogystal ag agwedd glinigol y gofal, rhoddwyd pwyslais ar y sgwrs 'Yr Hyn Sy'n Bwysig'. Yn lle atgyfeirio i rywle arall yn y system ofal, cadwodd y nyrs yr arweinyddiaeth fel bod gwasanaethau a oedd, cyn hynny, ond ar gael i gydweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol, bellach ar gael i bob partner. Arweiniodd galwad ffôn syml at ymweliad gan gydweithiwr hawliau lles a'r nyrs ardal. Arweiniodd hyn, ynghyd â chryfderau a rhwydweithiau personol BR ei hun ac isafswm cymorth gan y trydydd sector, at BR yn cyflawni ei ganlyniadau personol. O ganlyniad, er gwaetha'r ffaith ei fod yn llai pwysig iddo, cafwyd gwellhad/adferiad ar ôl y llawdriniaeth a rheolaeth stoma heb unrhyw broblem fel isgynnyrch o'r hyn oedd yn bwysig i BR mewn gwirionedd.

Pwynt Cyswllt

Cyngor Gwynedd

Telerisamueltoohill@gwynedd.llyw.cymru

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

- ✓ **llesiant a chanlyniadau personol**
 - > cyd-gynhyrchu
 - > modelau gofal newydd
 - ✓ **llais a rheolaeth i bobl**
 - ✓ **ataliaeth ac ymyrraeth gynnar**
- > gwybodaeth, cyngor a chymorth
 - > asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur
 - ✓ **integreiddio, partneriaeth a chydweithredu**
 - > diogelu ac amddiffyn
 - > eiriolaeth

Grŵp Cleientiaid

Preswylwyr gwledig iawn yn dychwelyd adref ar ôl gofal claf mewnol.

Amgylchiadau personol

Roedd Eirian yn yr ysbyty ar ôl torri ei chlun ac roedd angen iddi ddychwelyd adref gyda gwasanaeth ailalluogi a chymorth. Gall dychwelyd adref ar ôl cyfnod o ofal claf mewnol fod yn heriol, yn arbennig i bobl sydd yn byw mewn ardal wledig fel Powys. Nid yw'n cymryd amser hir i golli'r tasgau byw o ddydd i ddydd syml pan fyddwch wedi bod yn analluog am gyfnod o amser. Nid yw eu hadfer dros nos yn hawdd pan fyddwch yn gwella o anaf annisgwyl neu salwch hirdymor a olygodd eich bod oddi cartref.

Yr hyn a wnaeth (trefniadau)

Mae Cyngor Sir Powys a Bwrdd Addysgu Iechyd Powys wedi datblygu Gwasanaeth Ailalluogi Integredig. Mae'n cynnig cymorth dwys i helpu pobl sydd yn cael adferiad ar ôl salwch neu anaf i adennill eu hannibyniaeth.

Mae'r tîm ailalluogi yn cynnwys therapydd galwedigaethol, a gweithwyr cymorth wedi eu hyfforddi. Gan gydweithio'n agos, mae'r tîm yn datblygu cynllun sy'n cefnogi unigolyn mor gynnar â phosibl, hyd at eu rhyddhau ac i'r cartref, y lle maent yn ei garu fwyaf ac eisiau bod.

Canlyniad

Cynorthwyo rhywun i barhau'n annibynnol yn eu cartref eu hunain, yn agos at deulu a ffrindiau yw ein nod, ond mae iddo hefyd fanteision ariannol sylweddol i'r cyngor. Yn y gorffennol, byddai rhywun sydd wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod yn colli rhai o'r sgiliau yr ydym ni'n eu cymryd yn ganiataol.

Wrth ddychwelyd adref byddai pobl yn aml yn methu cefnogi eu hunain, gan naill ai roi pwysau ar y teulu neu gymorth y cyngor, fel gofal yn y cartref, all fod yn gostus iawn yn dibynnu ar lefel yr angen.

Roedd ymyrraeth gynnar wedi ei ddilyn gan gymorth dwys yn allweddol i alluogi Eirian i fynd adref ar ôl torri ei chlun. Cydweithiodd y tîm amlddisgyblaethol yn agos i ddrafftio cynllun gwasanaeth fyddai'n cynorthwyo Eirian i addasu ei chartref er mwyn iddi allu symud o gwmpas yn haws.

I Eirian, gwnaeth ymweliadau ac addasiadau'r tîm wahaniaeth mawr ar ôl iddi golli ei hyder, dywedodd hefyd:

“Roedd o gymorth mawr fod y tîm yn dod i mewn, fe wnaethant fy annog a rhoi'r hyder i mi drïo'n galetach. Trwy fod gartref, mewn amgylchedd croesawgar, rydych yn gwella'n gynt.”

Pwynt Cyswllt

Bwrdd Addysgu Iechyd Powys

adrian.osborne@wales.nhs.uk

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

✓ llesiant a chanlyniadau personol

- > cyd-gynhyrchu
- > modelau gofal newydd
- > llais a rheolaeth i bobl

✓ ataliaeth ac ymyrraeth gynnar

✓ gwybodaeth, cyngor a chymorth

- ✓ asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur
- ✓ integreiddio, partneriaeth a chydweithredu
- > diogelu ac amddiffyn
- > eiriolaeth

Grŵp Cleientiaid

Pobl hŷn sydd angen gofal a chymorth i barhau'n annibynnol yn y gymuned.

Amgylchiadau personol

Mae Mr a Mrs S eu dau dros 90 oed. Mae Mrs S mwy neu lai yn ddall ac mae gan ei gŵr ddementia datblygol a chyflyrau cronig eraill. Er gwaethaf y nam ar ei golwg, maent bob amser wedi bod yn annibynnol iawn ac yn gallu gofalu am ei gilydd tan yn ddiweddar pan wnaethant gyrraedd pwynt o argyfwng. Sylweddolodd Mrs S fod angen cymorth arni er mwyn parhau i fyw'n annibynnol. Roedd ganddi ddi-ddordeb mewn gwybodaeth a chyngor ynghylch sut i reoli Alzheimer's ei gŵr yn well, roedd angen cymorth arnynt gyda gofal personol, tasgau yn y cartref ac unrhyw ddi-gwyddiadau cymdeithasol fyddai o gymorth i leddfu ei rôl fel ei brif ofalwr tra'n parhau i wneud gweithgareddau cymdeithasol.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Pennodd ymweliad asesu anghenion gofal, peryglon, lefelau symudedd a gweithgareddau byw o ddydd i ddydd. Rhoddwyd cymorth gyda thasgau'r cartref a golchi a siopa. Archwiliwyd y posibilrwydd o'r ddau yn mynychu canolfan ddydd. Rhoddodd ymyrraeth gan weithiwr cymdeithasol nam ar y llygaid gymorth a chyngor. Rhoddodd Gofal Crossroads gymorth gyda Mr S a chwmsela ar gyfer Mrs S fel gofalwr. Darparodd Cyfeirio i Age Connects wasanaeth gefeillio. Darparwyd asesiad ariannol gan dîm cyllid gofal cymunedol. Daeth tîm amlddisgyblaethol (MDT) ynghyd mewn modd amserol. Cynhaliodd Cynllun Cymydog Da Age Connects asesiad hollistaidd; darparwyd gwybodaeth am weithgareddau cymdeithasol, cynigiwyd paru cyfaill a chymorth gyda thrafnidiaeth i apwyntiadau iechyd. Rhoddodd y Gymdeithas Alzheimer wybodaeth am reoli cyflwr, dyfais olrhain, Caffi Dementia lleol a threfnu trafndiaeth gysylltiedig.

Canlyniad

Roedd y claf a'i wraig yn gallu cael mynediad i'r holl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol oedd ar gael trwy wneud un galwad ffôn. Trwy gyfuno adnoddau a thrafod y sefyllfa, gwnaeth atgyfeiriadau priodol heb oedi na dyblygu. Llwyddodd ymagwedd unedig i atal derbyn i'r ysbyty a chafodd y pâr gymorth yn y gymuned.

Helpodd ymweliadau rheolaidd y gwirfoddolwr gefeillio i leddfu unigrwydd Mrs S ac ysgogi Mr S trwy ei ymgysylltu mewn sgysiau. Roedd y gwirfoddolwr yn gallu codi unrhyw faterion gyda chydlynnydd y gwasanaeth ac fe wnaeth gweithredoedd cynnar leihau'r perygl o argyfwng. Mae swyddog cymorth y Gymdeithas Alzheimer wedi galluogi Mrs S i gael mwy o reolaeth dros y sefyllfa a rheoli gofal ei gŵr yn well.

Cafodd Mr S ei asesu am becyn gofal a wnaeth leddfu ychydig ar y pwysau ar Mrs S. Gallai gofalwyr hefyd wneud rhai dyletswyddau domestig, gan alluogi Mrs S i dreulio mwy o amser gydag ef. Cafodd y ddau eu hasesu i fynychu canolfan ddydd fel pâr ac roeddent yn mwynhau hyn, gan roi elfen o seibiant i Mrs S. Mae asesiad ariannol hefyd wedi amlygu cost eu gofal ac wedi nodi meysydd lles a budd-daliadau y gallent fod yn gymwys ar eu cyfer fel Lwfans Gweini a Chredyd Pensiwn.

Pwynt Cyswllt

Cyngor Bro Morgannwg

SDSmith@valeofglamorgan.gov.uk

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

✓ llesiant a chanlyniadau personol

- > cyd-gynhyrchu
- > modelau gofal newydd
- > llais a rheolaeth i bobl
- > ataliaeth ac ymyrraeth gynnar

✓ gwybodaeth, cyngor a chymorth

- > asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur
- ✓ **integreiddio, partneriaeth a chydweithredu**
- ✓ **diogelu ac amddiffyn**
- ✓ **eiriolaeth**

Grŵp Cleientiaid

Gofal a chymorth ar gyfer pobl hŷn sy'n byw yn y gymuned.

Amgylchiadau personol

Mae Mrs X yn 75 oed ac yn datgan ei bod wedi dioddef o orbryder am flynyddoedd lawer a bod ei hiechyd yn wael a bod ei chyflwr wedi gwaethygu dros y penwythnos. Yn dilyn marwolaeth ei mab, nid oes llawer o ryngweithio teuluol bellach. Gwnaeth Mrs X nifer o alwadau ac ymweliadau i wasanaethau'r GIG. Roedd yn ymosodol iawn tuag at staff gofal iechyd ac arddangosodd ymddygiad amhriodol tuag at ddefnyddwyr eraill y gwasanaeth ac nid yw'n ymateb i ymyriadau i leihau'r defnydd o wasanaethau. Mae'n gwrthod derbyn unrhyw ddiagnosis a bydd yn mynd at ddarparwyr gofal iechyd eraill nes iddi gael yr ymateb y mae'n ei ddymuno. Mae Mrs X wedi cael sawl archwiliad, bob un â chanlyniad boddhaol.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Cynrychiolodd Swyddog Cyswllt Cymunedol (CLO) Age Connects Mrs X mewn cyfarfod tîm amlddisgyblaethol pan oedd yn gallu trafod ei gweithredoedd. Cytunodd y tîm i fonitro'r sefyllfa ac i ddechrau cafwyd ymateb da. Fodd bynnag, roedd y tîm iechyd Meddwl Cymunedol o'r farn bod gan Mrs X fewnwelediad a gallu i wneud penderfyniadau. Mewn trafodaethau gyda Heddlu De Cymru, roedd y tîm o'r farn bod ymddygiad Mrs X yn cynnwys elfen wrthgymdeithasol, ac y byddai'n rhesymol archwilio'r llwybr hwn pe na fyddai pethau'n gwella.

Esboniodd Age Connects (CLO) oblygiadau ei hymddygiad i Mrs X ac, oherwydd ei chamddefnydd parhaus o'r Gwasanaethau Brys, chychwynnwyd Cynllun Rheoli Integredig ar gyfer ei gofal. Roedd y cynllun hwn yn gofyn i'r Uned Frys, y meddyg teulu (galwadau ffôn ac apwyntiad wythnosol), Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a'r gwasanaethau y Tu Allan i Oriau, ddilyn y cynllun gydag Age Connects er mwyn monitro'n ddyddiol,

ymweld yn wythnosol ac ymchwilio i ymyriadau gwasanaeth amgen.

Mae ymyriadau CLO Age Connects yn cynnwys:

- > Mynd gyda Mrs X i apwyntiadau, gweithgareddau cymdeithasol, grwpiau cymorth a sesiynau therapi
- > Eirioli i unioni materion tai
- > Esbonio dewisiadau tai amgen a'r eiddo a welwyd
- > Llwyddo i gwblhau gwiriad budd-daliadau a chyflwyno ceisiadau
- > Trefnu ymyrraeth gwasanaeth preifat
- > Atgyfeiriadau i Asiantaethau Trydydd Sector a thimau GIG
- > Cymorth i gael mynediad i wasanaethau dosbarthu siopa a'u cynnal
- > Datblygu strategaethau ymdopi ataliol i leihau gorbryder
- > Rhoi gwybodaeth am opsiynau trafndiaeth amgen a chyfnodau gwyliau/seibiant.

Canlyniad

Mae Mrs X wedi dangos gwelliant o ran ymddygiad ac mae wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r Gwasanaethau Brys yn amhriodol. Bydd nodau Mrs X i'r dyfodol yn cael eu cofrestru gyda'r un practis meddyg teulu ac yn cyfarfod â ffrindiau newydd. Ymddengys bod y nodau hyn yn ysgogi newid mewn ymddygiad. Mae tynnu adnoddau ynghyd o amrywiaeth o asiantaethau wedi cyfrannu at Mrs X yn gwneud newidiadau cadarnhaol o ran rhyngweithio ac mae wedi arwain at lai o bresenoldeb yn yr adran ddamweiniau ac achosion brys a gofynion amhriodol ar wasanaethau'r GIG. Mae Mrs X yn dal i gael 'Galwadau Cysur Dyddiol' ac ymweliad wythnosol gan Age Connects.

Canlyniad

Age Connects Caerdydd a'r Fro

sharon.adams@ageconnectscardiff.org.uk

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

- > llesiant a chanlyniadau personol
- > cyd-gynhyrchu
- ✓ **modelau gofal newydd**
- ✓ **llais a rheolaeth i bobl**
- ✓ **ataliaeth ac ymyrraeth gynnar**
- ✓ **gwybodaeth, cyngor a chymorth**
- > asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur
- ✓ **integreiddio, partneriaeth a chydweithredu**
- > diogelu ac amddiffyn
- > eiriolaeth

Grŵp Cleientiaid

Pobl hŷn sydd angen gofal a chymorth i barhau'n annibynnol yn y gymuned.

Amgylchiadau personol

Derbyniwyd galwad i'r Gwasanaethau Ataliol trwy'r Pwynt Cyswllt Cyntaf (FPOC) am fod Mrs I yn teimlo bod angen gweithiwr cymdeithasol arni. Roedd Mrs I yn cael anhawster gyda symudedd ac yn gwbl ddibynol ar ei gŵr a'i merch o ran gadael y tŷ ac roedd yn poeni am syrthio. Roedd ganddi broblemau gyda'i chlyw oedd yn ei hachosi i golli cwsgr, gan ei bod yn bryderus, mewn achos o dân, na fyddai'n clywed larwm tân y tŷ ac na fyddai'n gallu gadael yn ddiogel os byddai tân. Roedd Mrs I yn poeni am ei hiechyd ac yn bwriadu cysylltu â'i meddyg teulu am gymorth.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Gan ddefnyddio profiad a dealltwriaeth o anghenion pobl hŷn, trefnodd yr FPOC ymweliad ar y cyd er mwyn i Swyddog Ymweld Byw'n Annibynnol a Therapydd Galwedigaethol fynd trwy asesiad holistaidd a llesiant llawn. Galluogodd gwaith rhwng timau yn y Gwasanaethau Ataliol a pherthynas gref gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, i'r Gwasanaethau Ataliol ddarparu atebion lluosog er mwyn helpu Mrs I i:

- > Osod rheiliau llaw gan y tîm cyfleusterau anabled gan ganiatáu iddi adael ei chartref a mynd i'r ardd heb fod angen cymorth;
- > Llofnodi'r Cynllun Bathodyn Glas, sydd yn dileu rhwystrau a all effeithio ar fywyd o ddydd i ddydd;
- > Cael asesiad clyw a arweiniodd at ddarparu Cloch Drws Uchel ac sydd yn Goleuo;

- > Trefnu i Wasanaeth Tân De Cymru ddarparu Larwm Tân sy'n dirgrynu o dan ei chlustog;
- > Oherwydd symudedd cyfyngedig Mrs I, darparwyd Teleofal hefyd;
- > Cynorthwyo Mr a Mrs I i hawlio lwfans Gweini DWP, nodwyd y byddent £4,280 y flwyddyn yn well eu byd, gan helpu i dalu costau teithio i apwyntiadau meddyg teulu, mynd allan mwy a themlo'n fwy diogel yn ariannol.

Canlyniad

Roedd Mrs I a'i gŵr yn gallu aros yn eu cartref, gwella eu llesiant, lleihau eu posibilrwydd o ofal cymdeithasol, oedd i gyd yn bodloni canlyniadau personol Mrs I heb fod angen ymyriadau iechyd. Yn ogystal, gan fod Mrs I yn defnyddio Teleofal, roedd gan ei theulu sicrwydd a'r hyder, pe byddai unrhyw beth yn digwydd, y gellid monitro Mrs I a'i chynorthwyo pe na fyddent gartref.

Pwynt Cyswllt

Cyngor Dinas Caerdydd

CGilhooly@cardiff.gov.uk

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

✓ llesiant a chanlyniadau personol

- > cyd-gynhyrchu
- > modelau gofal newydd
- > llais a rheolaeth i bobl

✓ ataliaeth ac ymyrraeth gynnar

✓ gwybodaeth, cyngor a chymorth

- ✓ asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur
- ✓ integreiddio, partneriaeth a chydweithredu
- ✓ diogelu ac amddiffyn
- > eiriolaeth

Grŵp Cleientiaid

Plentyn ag anghenion arbenigol.

Amgylchiadau personol

Roedd Jane yn cael anhawster gyda'i mab 10 oed, Josh, sydd â lefelau uchel o orbryder a chafodd diagnosis o ASD ac ADHD yn 5 oed. Roedd Josh yn gwrthod mynd i'r ysgol ac nid oedd wedi bod mewn unrhyw fath o addysg ers dwy flynedd. Rhoddwyd cynnig ar opsiynau gwahanol, yn cynnwys dosbarthiadau llai, unedau ASD ac unedau ymddygiadol, ond roedd Josh yn dal i wrthod mynd yn dilyn achlysur pan gafodd ei atal gan athro.

Roedd Jane yn mynd yn fwy ynysig, am na fyddai Josh yn gadael y tŷ, oedd yn effeithio ar ei hiechyd meddwl. Trodd Jane at alcohol i'w helpu i ymdopi â'r gofynion arni. Hunangyfeiriodd i'r Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) gan ofyn am help gyda'i mab.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Sefydlwyd cyfarfod amlasiantaeth gan Gydlynnydd TAF gyda gweithiwr cymdeithasol Addysg, y tîm Cynhwysiant Cymdeithasol a Jane i drafod opsiynau Josh. Yn sgil y cyfarfod hwn, cynigiwyd lleoliad i Josh mewn ysgol nad oedd wedi mynychu o'r blaen a datblygwyd cynllun pontio.

Cefnogodd TAF Jane a Josh i ymweld â'r ysgol dro ar ôl tro cyn gwyliau'r haf. Gwnaeth Cydlynnydd TAF lyfr gyda lluniau o athro newydd Josh ac ystafell ddosbarth iddo ddarllen yn y gwyliau. Cytunodd Jane i yrru heibio'i ysgol newydd bob wythnos er mwyn i Josh ymgyfarwyddo â'r syniad o fynd yno ym mis Medi. Cytunwyd ar ddychweliad graddol gyda Josh yn mynychu yn y bore o 9.30-11.30am. Ym mis medi, aeth Josh i'r ysgol ar gyfer sesiynau'r bore a gynyddwyd o awr ar ôl hanner tymor.

Canlyniad

Mae gorbryder Josh yn parhau ac ar adegau, mae'n gwrthod mynd i'r ysgol. Fodd bynnag, mae Jane yn fwy hyderus yn ymdrin â hyn ar ôl cael cymorth gyda strategaethau rhianta gan weithiwr cymorth gwybodaeth TAF e.e. y canlyniad pan fydd Josh yn dewis peidio mynychu'r ysgol yw dim rhyngwyd yn y tŷ nes ei fod yn dychwelyd y diwrnod canlynol. Mae Jane wedi cadw at hyn yn ffyddlon.

Roedd hwn yn ganlyniad cadarnhaol ac roedd yn wych i TAF rannu'r profiad gyda Jane, gan weld Josh yn mynd i'r ysgol ar ôl dwy flynedd o fod gartref. Mae'n annhebygol y byddai Josh yn yr ysgol nawr pe na fyddai gwasanaethau cydgyssylltiedig gyda'r gweithwyr proffesiynol cywir wedi digwydd. Mae llesiant Jane wedi gwella ac nid yw bellach yn defnyddio alcohol fel ffordd o ymdopi. Yn lle hynny, mae Jane yn galw TAF ar gyfer unrhyw broblemau y mae'n ansicr sut i ymdrin â nhw. Mae TAF yn cefnogi Jane a Josh gyda'r cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd fis Medi nesaf ac mae Jane yn edrych ymlaen at ddychwelyd i'r gwaith pan fydd Josh wedi ymgartrefu yn yr ysgol. Maent yn ceisio sicrhau mai cyfnod pontio yw hwn, nid creu dibyniaeth.

Pwynt Cyswllt

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

plant@conwy.gov.uk

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

- ✓ **llesiant a chanlyniadau personol**
 - > cyd-gynhyrchu
 - > modelau gofal newydd
- ✓ **llais a rheolaeth i bobl**
 - > gwybodaeth, cyngor a chymorth
 - > asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur
- ✓ **ataliaeth ac ymyrraeth gynnar**
 - > diogelu ac amddiffyn
 - > eiriolaeth
- ✓ **integreiddio, partneriaeth a chydweithredu**

Grŵp Cleientiaid

Gofal a chymorth i gynnal annibyniaeth person hŷn yn y gymuned.

Amgylchiadau personol

Arweiniodd cyfnodau o ddryswch i Mrs A at ymyrraeth. Roedd Mrs A yn dioddef problemau cof tymor byr ond roedd ganddi ddealltwriaeth o'u salwch ac angen cymorth gyda materion amrywiol. Mae gan Mrs A alergeddau difrifol i eitemau amrywiol ac yn dioddef o epilepsi a symudedd cyfyngedig.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Ar ôl cael sgwrs 'Yr Hyn Sy'n Bwysig' gyda Mrs A, cytunwyd ei fod yn hanfodol iddi gadw ei hannibyniaeth cyhyd â phosibl. Roedd Mrs A eisiau cymorth i ddod o hyd i fflat mewn amgylchedd llety â chymorth er mwyn teimlo'n ddiogel ac yn llai unig. Roedd hefyd eisiau sefydlu trefn yn ei bywyd o ddydd i ddydd a bod yn fwy diogel yn ariannol.

Darparwyd cymorth Nyrs Seiciatrig Gymunedol (CPN) ac arweiniodd hyn at ddiagnosis o Dementia Fasgwlaidd. Cafwyd ymweliadau ar y cyd gan y gweithiwr cymdeithasol a CPN er mwyn sicrhau cysondeb gofal o'r ddau broffesiwn. Roedd ymweliad hanner awr y dydd gan weithiwr cymorth yn cadw trefn e.e. gwirio labeli bwyd, didoli post, nodi apwyntiadau ac ysgogiadau i lanhau ei chartref. Mae Mrs A bellach yn cael lwfans gweini ar ôl cyflwyno cais am wriad budd-daliadau llawn. Llwyddodd Mrs A i gael cynnig fflat llawr gwaelod mewn llety â chymorth. Ar ôl archwilio opsiynau grant, gan nad oedd ganddi unrhyw gynilion i'w helpu gyda chostau symud fel carpedi newydd, bleinds, gwely a dillad gwely ac ati, llwyddodd i gael grant o fwy na £2,200 a defnyddiwyd siopau lleol i ddodrefnu a helpu gyda'r symud.

Gwnaed cais am fathodyn glas a chafodd ei hannog i fynychu grwpiau gweithgaredd corfforol lleol ar gyfer pobl â dementia a'u gofalwyr. Addaswyd y Cynllun Gofal ar ôl i Mrs A symud i gynnwys tasgau newydd sef cael cwmni i fynd i siopau lleol a'i chynorthwyo i ymgyfarwyddo â'i hamgylchedd lleol, a'i chynorthwyo i ddeall sut i ddefnyddio offer trydanol. Mae Mrs A bellach yn aelod o grŵp dementia i roi safbwynt defnyddwyr gwasanaeth.

Canlyniad

Trwy ganolbwyntio ar lesiant Mrs A, archwiliodd y CPN a'r gweithiwr cymdeithasol ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn cyflawni'r hyn oedd yn bwysig iddi hi. Roedd y berthynas agos a sefydlwyd gan y CPN a'r gweithiwr cymdeithasol o gymorth i sicrhau nad oedd unrhyw ddyblygu na cham-gyfathrebu yn y gwasanaeth a ddarparwyd. Roedd Mrs A o'r farn bod y cydweithio wedi helpu, yn arbennig gyda'i chyflwr am ei bod yn gallu galw gan wybod nad oes rhaid iddi ailadrodd ei hun.

Pwynt Cyswllt

Cyngor Gwynedd

Telerisamueltoohill@gwynedd.llyw.cymru

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

✓ llesiant a chanlyniadau personol

- > cyd-gynhyrchu
- > modelau gofal newydd
- > llais a rheolaeth i bobl

✓ ataliaeth ac ymyrraeth gynnar

✓ gwybodaeth, cyngor a chymorth

- > asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur
- ✓ **integreiddio, partneriaeth a chydweithredu**
- > diogelu ac amddiffyn
- > eiriolaeth

Grŵp Cleientiaid

Pobl hŷn sydd angen gofal a chymorth i barhau'n annibynnol yn y gymuned.

Amgylchiadau personol

Mae Mrs L yn 80 oed ac yn byw ar ei phen ei hun. Mae ganddi iselder hirdymor sydd wedi achosi diffyg cymhelliant ac ynysu. Yn fwy diweddar, syrthiodd, gan achosi dirywiad pellach yn ei llesiant cyffredinol ac mae hi ond yn mynd allan bellach gyda chymorth ei theulu. Gwnaed cais am gymorth gydag ysgogiad cymdeithasol.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Merch Mrs L yw ei phrif ofalwr ac mae'n rhoi cymorth yn ddyddiol. Hysbysodd ni nad yw ei mam yn ymgysylltu'n dda ar y ffôn ac y byddai, o bosibl, yn gwrthod unrhyw gymorth byddai'n cael ei gynnig, gan awgrymu y byddai ymweliad cartref yn ffordd fwy effeithiol o drafod yr opsiynau cymorth sydd ar gael. Aeth y brocer i weld Mrs L yng nghwmni ei merch gan drafod a rhoi gwybodaeth fanwl am grwpiau cymdeithasol lleol, gwasanaeth cwnsela am ddim a thrafnidiaeth Green-links. Ymgysylltodd Mrs L yn dda a dangos diddordeb yn rhai o'r opsiynau a ddarparwyd.

Canlyniad

Mae gwasanaeth brocer y Trydydd Sector yn canolbwyntio ar y person sydd angen cymorth a dangosodd yr ymagwedd bersonol a roddwyd i Mrs L fod hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Fe wnaeth y cyswllt wyneb yn wyneb â'r brocer ennyn ei diddordeb a'i hyder i ddechrau mynd allan unwaith eto, i gymdeithasu a chyfarfod â phobl. Mae Mrs L yn adfer ei hyder a'i hysgogiad i wneud pethau yr oedd yn mwynhau eu gwneud un tro yn raddol, yn ogystal â datblygu teimlad o hunanwerth a hunan-barch. Mae Mrs L bellach yn mynychu clwb cinio lleol ddwywaith yr wythnos a grŵp arall yn wythnosol. Mae hefyd yn gobeithio ymuno â chôr lleol am fod cerddoriaeth yn rhywbeth y mae'n angerddol yn ei gylch.

Rhoddodd merch Mrs L adborth gan ddyfynnu: "Mae'n anhygoel bod Mam wedi mynd o fod gartref bob dydd, oni bai fy mod i a'm brodyr yn gallu cael amser i ffwrdd o'r gwaith, i gael bywyd prysur iawn. Mae wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i fywyd Mam ac mae wedi helpu ei hiselder yn aruthrol. Mae wedi rhoi rhywbeth iddi siarad amdano y tu hwnt i'r teulu. Y sgil-effaith yw bod Mam bellach yn meddwl beth i'w wisgo...dillad newydd, esgidiau newydd, gwallt a cholur unwaith eto. Mae'n edrych ymlaen at deithiau dydd ac yn talu am bethau ymlaen llaw er mwyn sicrhau ei bod yn cael lle ar bethau sydd yn digwydd yn y dyfodol! Nid fi sy'n gwneud yr holl feddwl a'r cynllunio bellach!"

Pwynt Cyswllt

Cyngor Bro Morgannwg

SDSmith@valeofglamorgan.gov.uk

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

- ✓ **llesiant a chanlyniadau personol**
 - > cyd-gynhyrchu
 - > modelau gofal newydd
 - ✓ **llais a rheolaeth i bobl**
 - ✓ **ataliaeth ac ymyrraeth gynnar**
- > gwybodaeth, cyngor a chymorth
 - > asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur
 - ✓ **integreiddio, partneriaeth a chydweithredu**
 - > diogelu ac amddiffyn
 - > eiriolaeth

Grŵp Cleientiaid

Person hŷn ag anghenion cymhleth sydd angen gofal a chymorth i barhau'n annibynnol.

Amgylchiadau personol

Yn wreiddiol o Somalia, mae Mr AB sydd yn ei saithdegau, yn byw gyda'i wraig mewn fflat llawr uchaf. Wrth ymweld â'i wlad enedigol yn 2015, cafodd strôc ddifrifol a chafodd ei dderbyn i'r ysbyty am driniaeth. Ar ôl cael ei ryddhau, arhosodd yn Somalia am wyth mis am fod ganddo bwysedd gwaed uchel ac nid oedd yn gallu hedfan.

Pan ddychwelodd adref, nid oedd ei deulu'n gallu ymdopi a chafodd ei dderbyn i'r ysbyty ar gyfer adsefydlu. Ar ôl chwe wythnos, cafodd ei ryddhau gartref o dan ofal y Tîm Adnoddau Cymunedol. Dywedodd y ffisiotherapydd, oherwydd yr amgylchiadau, ei fod wedi colli triniaeth y dylai fod wedi ei derbyn, ac roedd yn rhaid iddynt weithio'n galed i alluogi cynnydd pellach gyda'i adsefydlu a'i adferiad. Roedd Mr AB yn llawn cymhelliant, ond roedd gorfod aros yn y gwely'n barhaus yn rhwystro hyn. Roedd aelodau ei gorff yn crebachu ac roedd bod yn y gwely'n ei ynysu hefyd am nad oedd yn ddiogel iddo eistedd mewn cadair freichiau.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Archebwyd cadair hydro-godi arbenigol gan ffisiotherapyddion oedd yn llwyddiannus iawn. Roedd yn gallu eistedd yn ddiogel yn y gadair ac roedd gobaith, mewn amser, y byddai o gymorth iddo godi ar gyfer trosglwyddo. Fodd bynnag, roedd y gost o £2,660 am y gadair y tu hwnt i allu'r teulu a bu'n rhaid ei hanfon yn ôl.

Asesiad y ffisiotherapydd oedd y byddai adferiad Mr AB yn gwella'n sylweddol wrth ddefnyddio'r gadair, pe bai hynny ond am ychydig wythnosau. Sefydlwyd y gellid llogi'r gadair hydro-godi am gyfnod

o chwe wythnos am £666. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Swyddog Cyswllt Cymunedol, mae Age Connects Caerdydd a'r Fro a'r Gymdeithas Strôc yn darparu grantiau o £300 yr un i dalu am hyn er mwyn rhoi'r cyfle i Mr AB gael yr adferiad gorau. Cyfrannodd y teulu'r gweddill.

Canlyniad

Unwaith y cafodd y gadair ei dosbarthu, darparwyd rhaglen adsefydlu ddwys gan ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol. O ganlyniad, dros y chwe wythnos nesaf, gwelodd goddefgarwch a chryfder Mr AB yn sylweddol gan ganiatáu cydbwysedd ac ystum eistedd diogel ac annibynnol yn ei gadair freichiau ei hun, a godwyd i alluogi mynediad.

Er gwaethaf rhwystrau ar hyd y ffordd, mae Mr AB wedi gweithio'n galed ac wedi gwneud cynnydd sylweddol. Mae'r bartneriaeth rhwng y Tîm Adnoddau Cymunedol a'r trydydd sector, trwy ddarparu'r gadair hydro-godi, wedi rhoi'r cyfle iddo allu eistedd gyda'i deulu yn ei gadair freichiau ei hun, yn hytrach na chael ei gaethiwo i'r ystafell wely. Mewn amser, pan fydd yn cael ei gadair olwyn â phŵer, y gobaith yw y bydd ansawdd bywyd Mr AB yn gwella eto wrth iddo allu mynd allan.

Pwynt Cyswllt

Age Connects Caerdydd a'r Fro

Sharon.adams@ageconnectscardiff.org.uk

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

✓ llesiant a chanlyniadau personol

> cyd-gynhyrchu

✓ modelau gofal newydd

> llais a rheolaeth i bobl

✓ ataliaeth ac ymyrraeth gynnar

✓ gwybodaeth, cyngor a chymorth

> asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur

✓ integreiddio, partneriaeth a chydweithredu

> diogelu ac amddiffyn

> eiriolaeth

Grŵp Cleientiaid

Gofal a chymorth i bobl hŷn sy'n byw yn y gymuned.

Amgylchiadau personol

Symudodd Mr VD, dyn 82 oed, i mewn i garafán 24 o flynyddoedd yn ôl yn dilyn newid mewn amgylchiadau personol. Nid yw erioed wedi priodi na chael plant a'i berthynas agosaf oedd ffrind oedd yn byw cryn bellter i ffwrdd. Roedd Mr VD wedi cael diagnosis o ddementia fasgwlaidd ac roedd nyrsys ardal yn ymweld yn wythnosol i gynorthwyo Mr VD gyda'i gathetr. Hyd nes iddo syrthio flwyddyn yn ôl, gan arwain at dorri ei ben-glin, roedd Mr VD wedi bod yn rhedwr a beiciwr brwd. Wrth i'r gaeaf agosáu, roedd y nyrsys ardal yn poeni amdano oherwydd cyflwr y garafán a'r diffyg gwres digonol. Roedd Mr VD yn ymddangos yn oer ar eu hymweliadau ac roedd yn colli pwysau.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Gwrthododd Mr VD gymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol ar ddau achlysur yn dilyn atgyfeiriad gan y tîm nyrsys ardal. Fodd bynnag, cafodd ei berswadio gyda chymorth ei ffrind i dreulio pythefnos yn y fflat tymor byr yn y Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Lleol a ariennir ar y cyd gan y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

Gan asesu Mr VD gan ddefnyddio ymagwedd ailalluogi, canfu'r tîm fod Mr VD yn mwynhau cwmni a'r cyfle i gael sgwrs gyda staff a rheolwr y cynllun Gofal Ychwanegol, roedd yn cael anhawster yn cymdeithasu gyda grwpiau mawr o bobl, ac roedd yn well ganddo fwyta ar ei ben ei hun. Roedd ei ffrind yn gallu cadarnhau bod Mr VD wedi bod fel hyn trwy gydol ei fywyd. Fe wnaeth gofal cathetr a pharatoi prydau Mr VD barhau ond canfu'r tîm, oherwydd ei ddementia, bod angen i'r cymorth hwn fod yn barhaus er mwyn ei ysgogi i wneud y tasgau hyn.

Canlyniad

Roedd Mr VD yn amharod i ddychwelyd i'w garafán am fod y llety a ddarparwyd gan y cynllun wedi caniatáu iddo reoli ei ofal personol yn annibynnol, cael pryd maethlon bob amser cinio a chael cawod yn ddyddiol. Trwy ddychwelyd i'r garafán, roedd yn barod i dderbyn gweithwyr cymorth ailalluogi ac oherwydd ei iechyd a chyflwr ei garafán, cytunodd i gyflwyno cais am fflat barhaol mewn Tai Gofal Ychwanegol.

Roedd panel ceisiadau iechyd (DN Lleol), Gofal Cymdeithasol (Rheolwr Tîm Gwaith Cymdeithasol a Rheolwr Ailalluogi Lleol) a'r gymdeithas tai yn ymwybodol o'r achos oherwydd perthynas waith agos y tîmau a gydleolwyd a chyfranogiad y gymdeithas tai am fod Mr VD wedi bod yn y cynllun.

Cydnabuwyd yr angen brys am ailgartrefu ond gallent weld na fyddai Mr VD yn manteisio ar y buddion yr oedd Tai Gofal Ychwanegol yn eu cynnig i leihau ynysu cymdeithasol a gwella llesiant am fod gan Mr VD ffobia o ymgysylltu â grwpiau o bobl. Gan ddatblygu perthynas waith gref, gweithiodd aelodau'r panel ar y cyd i ddod o hyd i ateb. Cafodd Mr VD yr opsiwn o le ar y cynllun neu le mewn cynllun tai â chymorth gan y gymdeithas dai.

Arweiniodd cydweithio at Mr VD yn derbyn lle ar y cynllun â chymorth ac roedd y gweithwyr cymorth ailalluogi yn gallu parhau gyda'u hymyrraeth yn ei gartref newydd.

Pwynt Cyswllt

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

debbie.liddell@conwy.gov.uk

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

- ✓ **llesiant a chanlyniadau personol**
 - > cyd-gynhyrchu
 - > gwybodaeth, cyngor a chymorth
- ✓ **modelau gofal newydd**
 - > llais a rheolaeth i bobl
 - ✓ **asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur**
 - ✓ **integreiddio, partneriaeth a chydweithredu**
 - > diogelu ac amddiffyn
- ✓ **ataliaeth ac ymyrraeth gynnar**
 - > eiriolaeth

Grŵp Cleientiaid

Rhieni oedrannus yn gofalu am oedolyn ag anabledd dysgu ac anghenion gofal a chymorth yn y cartref.

Amgylchiadau personol

Mae Mr C yn ddyn 58 oed â Down's Syndrome sydd yn byw gartref gyda rhieni oedrannus iawn sydd wedi gofalu amdano trwy gydol ei oes. Mae gan Mr C ddementia cyfnod cynnar ac mae ei sgiliau a'i symudedd wedi dirywio'n gyflym. Derbyniodd y gweithiwr cymdeithasol sydd yn gysylltiedig â'r teulu alwad frys yn dweud bod Mr C yn sâl ac nad oeddent yn gallu ei godi o'r toiled. Ymwelodd y gweithiwr cymdeithasol a nyrsys, sydd yn ffurfio tîm wedi ei gyd-leoli, ar unwaith. Tra'n cynorthwyo, nododd y nyrsys friw pwysedd gradd 2 a mynegi pryderon ynghylch y ffordd yr oedd y teulu preifat hwn wedi bod yn ymdopi.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Nododd asesiad bod angen gwely proffilio a hoist i gynorthwyo'r teulu a bod angen addasu'r cartref ymhellach. Er mwyn sicrhau bod yr offer cywir ar gael, ac yn cynorthwyo'r rhieni oedrannus am fod eu mab yn methu dal ei bwysau ei hun, cynigiwyd cyfnod byr o seibiant. Roedd y rhieni yn gryf yn erbyn hyn am eu bod bob amser wedi bod gyda'i gilydd ac aeth y tri yn ofidus iawn gyda'r syniad o dreulio amser ar wahân. Roedd y nyrsys wedi argymhell bod angen seibiant mewn cartref nyrsio er mwyn bodloni anghenion Mr C ar y pryd. Yna aeth y nyrsys anabledd dysgu, y gweithiwr cymdeithasol a'r tîm nyrsio cymunedol at y Cynllun Tai Gofal Ychwanegol a gofyn am gymorth brys.

Canlyniad

Roedd y tîm yn y cynllun (tai a gofal cymdeithasol) yn gallu cynnig seibiant yn y fflat tymor byr wedi ei ariannu ar y cyd gan y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Fe wnaethant 'fenthyg' gwely ychwanegol i ddarparu ar gyfer y teulu cyfan yn y fflat. Roedd gan y fflat wely proffilio a hoist trac nenfwd oedd yn caniatáu trosglwyddo Mr C yn ddiogel ac fe wnaeth y tîm sicrhau bod y rhieni yn rhan o'r gofal a'r cymorth i Mr C.

Wrth i'r teulu ddechrau ymddiried yn y tîm, roeddent yn gallu defnyddio cyfleusterau eraill yn y cynllun tra bod gweithwyr cymorth yn eistedd gyda Mr C ac ymwelodd y tîm nyrsio ardal lleol yn ddyddiol i reoli'r briw pwysedd. Tra bod y teulu yn y fflat tymor byr, gwnaed addasiadau i'w cartref a chafodd yr offer i'w cynorthwyo ei ddosbarthu. Daeth y teulu hefyd i arfer â'r staff cymorth yn ymweld yn ddyddiol ac fe wnaethant dderbyn pecyn gofal wrth ddychwelyd i'w cartref eu hunain.

Pwynt Cyswllt

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

debbie.liddell@conwy.gov.uk

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

- ✓ **llesiant a chanlyniadau personol**
 - > cyd-gynhyrchu
 - > gwybodaeth, cyngor a chymorth
 - > asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur
- ✓ **modelau gofal newydd**
- ✓ **llais a rheolaeth i bobl**
 - > ataliaeth ac ymyrraeth gynnar
 - > diogelu ac amddiffyn
 - > eiriolaeth
- ✓ **integreiddio, partneriaeth a chydweithredu**

Grŵp Cleientiaid

Gofal a chymorth i berson hŷn sy'n byw yn y gymuned.

Amgylchiadau personol

Derbyniwyd galwad 999 frys gan unigolyn, Mr GT, oedd wedi syrthio yng nghyntedd y tŷ. Ymatebodd Warden Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) mewn 12 munud, gan asesu nad oedd unrhyw anafiadau a chynorthwyo Mr GT i sefyll gan ddefnyddio clustog codi Mangar Elk.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Wrth fynychu, hysbysodd y Warden Mr GT am wasanaethau Teleofal yng Nghaerdydd a Therapi Galwedigaethol a gadael pecyn gwybodaeth. Rhoddodd Mr GT ganiatâd i gael ei atgyfeirio i Therapi Galwedigaethol. Cynhaliwyd asesiad llawn bum niwrnod ar ôl iddo syrthio ac fe wnaeth Therapyddion Galwedigaethol y Tîm Adnoddau Cymunedol dderbyn achos Mr GT. Derbyniodd Teleofal Caerdydd ffurflen gais gan y Gwasanaeth Ymateb Symudol a galwodd y tîm gweinyddol Mr GT yr un diwrnod gan gynnal asesiad dros y ffôn. O fewn 10 diwrnod, fe wnaeth Swyddog Cysylltiadau ymweld i osod yr offer Teleofal a thrafod manylion llawn y gwasanaeth gyda Mr GT.

Canlyniad

Mae gan Mr GT bellach grogdlws i'w ddefnyddio pan fydd yn syrthio yn hytrach na deialu 999. Nid yw wedi bod angen cymorth hyd yn hyn, ond os felly, bydd Teleofal yn ymateb o fewn 45 munud.

Pwynt Cyswllt

Cyngor Dinas Caerdydd

ZYarr@cardiff.gov.uk

Yr Her (Themâu Deddf 2014)

✓ llesiant a chanlyniadau personol

- > cyd-gynhyrchu
- > modelau gofal newydd
- > llais a rheolaeth i bobl

✓ ataliaeth ac ymyrraeth gynnar

✓ gwybodaeth, cyngor a chymorth

- > asesu, cymhwysedd a chynllunio gofal cymesur
- ✓ **integreiddio, partneriaeth a chydweithredu**
- > diogelu ac amddiffyn
- > eiriolaeth

Grŵp Cleientiaid

Pobl hŷn ag anabledd corfforol sydd angen gofal a chymorth i barhau'n annibynnol.

Amgylchiadau personol

Mae Mrs X yn 92, bron yn ddall ac mae ganddi rai cyflyrau iechyd cronig eraill. Mae ei gŵr hefyd yn ei nawdegau ac yn dioddef o ddemtia mewn cyfnod datblygedig. Maent wedi bod yn annibynnol iawn tan yn ddiweddar pan wnaethant, yn weddol anfodlon, dderbyn Pecyn Gofal bach i helpu Mr X yn y boreau. Fodd bynnag, cyrhaeddodd y sefyllfa argyfwng ac roedd Mrs X yn teimlo o dan straen, wedi ei hynysu ac yn cydnabod bod angen mwy o gymorth.

Yr hyn a wnaed (trefniadau)

Roedd brocer y Trydydd Sector yn gallu ymgysylltu Cynllun Cymydog Da (GNS) Gorllewin y Fro Age Connects a'r Gymdeithas Alzheimer er mwyn darparu'r cymorth oedd ei angen. Fe wnaeth Cydlynnydd GNS Age Connects ymweld ac esbonio sut y gallai helpu gyda thrafnidiaeth a threfnodd bod gwirfoddolwr gefeillio yn ymweld â Mrs a Mr X yn rheolaidd. Ymwelodd gweithiwr cymorth demtia hefyd o'r Gymdeithas Alzheimer, gan gynghori Mrs X ar sgiliau rheoli cyflwr a sut i gyfathrebu gyda'i gŵr mewn ffordd fwy effeithiol, a rhoi gwybodaeth am ddyfeisiadau sydd yn gallu dangos ble mae unigolyn.

Canlyniad

Mae ymweliadau parhaus gefeilliwr yn lleddfu unigrwydd Mrs X ac yn ysgogi Mr X. Os oes unrhyw faterion sy'n peri pryder, bydd y gwirfoddolwr yn gallu trafod hynny gyda chydlynnydd y gwasanaeth unrhyw bryd gan atal argyfwng arall. Mae swyddog cymorth Alzheimer wedi grymuso Mrs X trwy roi strategaethau ymdopi mwy effeithiol iddi i ymdrin â demtia ei gŵr. Bydd ymdrechion ar y cyd Age Connects a'r Gymdeithas Alzheimer hefyd yn caniatáu Mr a Mrs X i fynychu Caffi Alzheimer misol lleol.

Dywedodd Mrs X ei bod hi wrth ei bodd gyda'u gefeilliwr am ei fod yn berson mor hyfryd ac yn gallu uniaethu'n dda iawn gyda hi a'i gŵr, gan ysgogi Mr X trwy gynnal sgwrs gydag ef am ei ddi-ddordebau a'i weithgareddau. Maent yn edrych ymlaen at ei ymweliadau rheolaidd sydd gyda'r nos. Dywedodd y bydd hyn yn arbennig o dda wrth i'r gaeaf nesáu ac nad ydynt yn gwyllo'r teledu. Ychwanegodd Mrs X fod pawb oedd wedi bod mewn cysylltiad â nhw wedi bod yn gefnogol ac yn hyfryd.

Pwynt Cyswllt

Cyngor Bro Morgannwg

SDSmith@valeofglamorgan.gov.uk

“Gall pawb, yn oedolyn neu’n blentyn, gael llais – cyfle – hawl – i gael eu clywed fel unigolyn, fel dinesydd, i lunio’r penderfyniadau sy’n effeithio arnynt, ac i gael rheolaeth dros eu bywyd bob dydd.”

Côd Ymarfer – mesur perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol – Cyhoeddwyd yn unol ag Adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cyfeiriadau

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

Hyb Dysgu Deddfwriaeth Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

<http://www.ccwales.org.uk/the-act/>

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 9 – Rheoliadau Cydweithrediad a Phartneriaeth

<http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld10913/sub-ld10913-w.pdf>

Codau Ymarfer a Chanllawiau Statudol Gofal Cymdeithasol

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?lang=cy>

Datganiad Llesiant ar gyfer pobl ifanc sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth

<http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/statement/?lang=cy>

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru

<http://www.ccwales.org.uk/regional-partnership-boards/>

Monitor Llesiant plant a phobl ifanc ar gyfer Cymru 2015

<http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151211-children-young-people-wellbeing-monitor-2015-en.pdfbeing-monitor-2015-en.pdf>

Fframwaith ar gyfer Cyflenwi Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ar gyfer Pobl Hŷn sydd ag Anghenion Cymhleth – Llywodraeth Cymru (2014)

<http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/integration/?lang=cy>

Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol: Creu Newid: Canllaw E-Adnodd i’r newidiadau sy’n ofynnol yn ôl y Ddeddf

http://ssiacymr.org.uk/home.php?page_id=8596

Ham C, Walsh N (2013). Making integrated care happen at scale and pace. Llundain: Cronfa’r Brenin. Ar gael yn:

www.kingsfund.org.uk/publications/making-integrated-care-happen-scale-and-pace

Pontio rhwng lleoliadau ysbyty cleifion mewnol a lleoliadau cymunedol neu gartrefi gofal ar gyfer oedolion ag anghenion gofal cymdeithasol – canllaw NICE

<https://www.nice.org.uk/guidance/ng27>



ADSS Cymru

Leading Social Services in Wales

Yn arwain Gwasanaethau
Cymdeithasol yng Nghymru